# Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

## Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: EAC tudalen 1 o 2

EAC, De Affrica, Resins





Photos: Traidcraft/Richard Else

## Cymdeithas Gydweithredol Amaethyddol Eksteenskuil

Mae Cymdeithas Gydweithredol Amaethyddol Eksteenskuil (EAC) yn ardal Afon Orange yn Ne Affrica ger Anialwch y Kalahari. Mae yna 65 o ffermwyr yn y grŵp, yn byw ar 21 o ynysoedd. Mae'r seilwaith yma'n wael, dyw rhai ffermydd byth wedi cael trydan na dŵr pibell. Mae tyfu a sychu grawnwin, sy'n dod yn rhesins Masnach Deg, yn ffynhonnell ychwanegol, bwysig, o incwm i ffermwyr, llawer ohonyn nhw'n gweithio ar ddarnau bychan, aneconomaidd o dir. Gall ffermwyr bychan sy'n gallu cael arian i fuddsoddi mewn planhigion gwinwydden a dysgu'r sgiliau angenrheidiol ddechrau gwerthu eu rhesins ar ôl tair blynedd.

Dechreuodd Traidcraft ddatblygu safonau ffrwythau sych masnach deg i ddod ag EAC i'w system Masnach Deg, ond, mewn gwirionedd, tan 2009, nhw oedd yr unig gynhyrchwyr resins Masnach Deg yn y byd.

Mae Traidcraft wedi prynu'r rhesins ers 1995. Fe gymerodd wyth mlynedd o gymorth i ddod ag EAC i'r pwynt lle gallai gofrestru fel cyflenwr Masnach Deg yn 2003. Ond mae perthynas Traidcraft ag EAC yn fwy nag un prynwr a thyfwr yn unig. Mae Traidcraft wedi bod yn gefn iddyn nhw ers 15 mlynedd drwy, er enghraifft, dalu ymlaen llaw i helpu ffermwyr oroesi pan ddifethodd storm genllysg 70% o'u gwinllannau.



# Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

## Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: EAC 

### EAC, De Affrica, Resins





Photos: Traidcraft/Richard Else

Mae gan EAC bwyllgor sy'n cydlynu gwario premiwm Masnach Deg. Mae wedi defnyddio'r premiwm mewn sawl ffordd, gan gynnwys ar gyfer prynu peirannau, pympiau dŵr, llyfrau a chyfrifiaduron ysgol yn ogystal ag i hyfforddi ffermwyr. Erbyn hyn mae ganddyn nhw gasgliad o offer ffermio sy'n cael ei rannu ymysg aelodau fel bod pawb ar eu mantais.



"Cofiwch brynu'n cynnyrch, bydd yn ein helpu i gael bywyd gwell"

Ffermwr ac aelod EAC, Basie Oranje, sydd wedi bod yn ffermio ers tua 30 mlynedd. Etifeddodd gan ei dad ym 1985.



Photo: Traidcraft/Peter Collins

Mae EAC hefyd wedi lansio prosiect ieuenctid o dyfu llysiau, sy'n ffynhonnell arall o arian i deuluoedd.

Fel cwmni cydweithredol, gall EAC fod â mwy o ran mewn marchnata eu cnwd o rawnwin – maen nhw'n gallu eu gwerthu yn eu crynswth a datblygu perthynas gref â phrynwyr a phroseswyr. Mae undeb yn rhoi nerth i EAC ac, wrth i werthiant Geobars gynyddu, mae rhagor o aelodau wedi ymuno â'r cwmni cydweithredol ac wedi elwa ar Fasnach Deg.

